

CHWARAEON - PENCAMPWYR

Llongyfarchiadau i dîm rygbi merched blwyddyn 8,9 a 10 sydd wedi ennill cystadleuaeth rygbi ysgolion Gwynedd a Môn am yr ail flwyddyn yn olynol. Cafodd Cassia Pike ei henwebu fel chwaraewraig orau y twrnament.

Mae tîm rygbi blwyddyn 9 a 10 Ysgol Eifionydd wedi ennill Tarian Ysgolion Eryri yn erbyn Ysgol John Bright. Llongyfarchiadau mawr i chi hogiau.



Llywyddodd nifer o ddisgyblion Ysgol Eifionydd i ennill neu ddod yn ail mewn amryw o gystadlaethau yn Athletau Meirionnydd a Dwyfor. Bu unigolion yn cystadlu yn Athletau Eryri ar y 7fed o Fai.



Rhaglen deledu - Fi yw'r Bos

Bu tri disgybl o flwyddyn 8 yn cystadlu ar raglen deledu newydd o'r enw 'Fi yw'r Bos' ar S4C. Einion Owen, Osian Jones a Millie Nunn-Booton oedd y tri lwcus a ddaeth i'r brig. Bu'r tri yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn cyflawni cyfres o dasgau yng Ngwesty Portmeirion yn dilyn hyfforddiant gan staff y gwesty a chreu pwdin hufen ia a pistachio. Millie ddaeth i'r brig a bydd yn cystadlu yn y rownd derfynol yng Nghaerdydd ym mis Ebrill yn erbyn saith o ddisgyblion eraill o ysgolion ledled Cymru. Caiff y rhaglen hon ei darlledu ym mis Mai. Pob lwc Millie!



Mae eich barn yn bwysig i ni.

Cysylltwch ar 01766 512114 os oes diddordeb gennych fod yn aelod o Fforwm Rhieni Ysgol Eifionydd.



Llywyddodd tîm pêl droed merched Bl 9 a 10 i gyrraedd gêm derfynol Ysgolion Cymru am y pedwerydd tro yn olynol. Er fod Ysgol Eifionydd wedi curu'r gwpan am y 3 mlynedd diwethaf, bu iddynt gollu yn erbyn Ysgol Uwchradd Caerdydd ar gaeau pêl droed Aberystwyth.



Taith Ffrainc - Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth criw o 67 o ddisgyblion i Ffrainc. Cafodd y disgyblion y cyfle i ymweld â mynwent anferth, canolfan coffau milwyr y rhyfeloedd byd, taith o gwmpas Paris ac yna ymlaen i Euro Disney.



Y PROM - Ar y 1af o Fai cynhaliwyd Noson Wobrwyo a Phrom i ddathlu diwedd cyfnod Blwyddyn 11 yn Ysgol Eifionydd. Cafwyd noson lwyddiannus a braf oedd gweld y disgyblion yn edrych yn grand o'u coeau. Ewch ar wefan yr ysgol i weld mwy o luniau Chwaraeon, Taith Ffrainc a'r Prom.

Presenoldeb

Mae presenoldeb o 93% neu'n well yn rhoi 73% o siawns i chi gyrraedd 5 A*-C yn eich TGAU beth bynnag yw eich gallu.

Mae presenoldeb sydd yn llai na 90% yn golygu fod y siawns o gael 5 A* - C yn eich TGAU yn disgyn i 27% beth bynnag yw eich gallu.

Mae 90% presenoldeb yn swnio'n dda, ond mae hyn yn un diwrnod i fwrdd o'r ysgol bob pythefnos. Dros 5 mlynedd mae'n gyfartal â 95 diwrnod o absonoldeb neu 19 wythnos sydd yn hanner blwyddyn ysgol. Os yw presenoldeb yn gwella 1%, mae cyrhaeddiad yn gwella 5 neu 6%.